# Presenoldeb Cyhoeddus a Siarad mewn Cyfarfodydd Pwyllgor

## 1.0 CYD-DESTUN

1.1 Rhaid bod cyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod yn agored i'r cyhoedd a'r wasg (Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 a Deddf Llywodraeth Leol 1972). At hynny, mae gan yr Awdurdod ddarpariaeth sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i roi sylwadau a gofyn cwestiynau i'r Aelodaeth, yn amodol ar ddarpariaethau adrannau 3 a 4 isod. Mae'r ddarpariaeth hon yn ychwanegol at y darpariaethau a wnaed dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 i wneud cais am wybodaeth.

1.2 Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddarpariaethau newydd ar gyfer cyfarfodydd awdurdodau lleol, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad statudol interim ar gyfarfodydd aml-leoliad. Gellir cael gafael ar yr arweiniad hwnnw yma: Arweiniad statudol interim ar gyfarfodydd aml-leoliad (llyw.cymru). Mabwysiadodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bolisi ynghylch Cyfarfodydd Aml-leoliad ar 30 Medi 2022. Ar hyn o bryd, caiff holl gyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol eu cynnal yn rhithiol yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Mae'r Awdurdod o'r farn bod darlledu cyfarfodydd yn hybu tryloywder, democratiaeth a llywodraethu da, felly bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw drwy wefan yr Awdurdod a bydd y recordiad yn cael ei archifo wedyn.

## 2.0 PRESENOLDEB Y CYHOEDD

2.1 Mae'n bosibl y bydd aelodau'r cyhoedd am wrando ar y cyfarfod ond na fyddant am gymryd rhan ynddo. I hwyluso hynny, mae'r Awdurdod yn ffrydio cyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod yn fyw ac yn cadw recordiad o'r cyfarfod am gyfnod o 12 mis, sydd ar gael wedyn ar sianel YouTube yr Awdurdod. Caiff manylion am sut y gellir cael mynediad i'r ffrwd fyw eu cyhoeddi gydag agenda'r Pwyllgor.

2.2 **Rhaid** i aelodau'r cyhoedd neu'r wasg gael eu heithrio o gyfarfod os yw eitem fusnes yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol (adran 100A(2), Deddf Llywodraeth Leol 1972). Nid oes angen penderfyniad. Mae'n ddigon bod Cadeirydd Pwyllgor yn gofyn i'r cyhoedd adael fel bod modd ymdrin yn breifat â'r eitem fusnes sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol. Os yw'r Awdurdod yn bwriadu eithrio'r cyhoedd neu'r wasg o ran o gyfarfod, bydd 'cyfrinachol' wedi'i nodi cyn y cyfarfod ar unrhyw ddogfennau perthnasol.

2.3 **Gellir** gwneud penderfyniad i eithrio'r cyhoedd neu'r wasg o gyfarfod yn ystod eitem fusnes dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os yw eitem fusnes yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y nodir yn adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Er mwyn tawelu neu atal ymddygiad afreolus neu unrhyw gamymddwyn arall mewn cyfarfod (adran 100A(8), LGA 1972).

2.4 Rhaid i benderfyniad:

- Nodi'r trafodion (neu'r rhan o'r trafodon) y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddynt/iddi.

- Disgrifio'r wybodaeth esempt sy'n arwain at y penderfyniad i eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod (adran 100A(5) ac Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972). Os yw Aelodau Pwyllgor yn fodlon bod y meini prawf uchod wedi'u bodloni, byddant yn gwneud y penderfyniad sy'n caniatáu i'r pwyllgor eithrio'r cyhoedd yn gyfreithlon tra bydd yr eitem berthnasol ar yr agenda'n cael ei hystyried. Fel yn achos gwybodaeth gyfrinachol, os ydym yn bwriadu eithrio'r cyhoedd neu'r wasg o ran o'r cyfarfod, bydd 'esempt' yn cael ei nodi gan y swyddog priodol cyn y cyfarfod ar unrhyw ddogfennau perthnasol.

**SIARAD YN GYHOEDDUS MEWN CYFARFODYDD**

## 3.0 'SIARAD YN GYHOEDDUS'

3.1 Mae'r rhan hon o'r polisi yn berthnasol i bob un o gyfarfodydd cyhoeddus Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

3.2 Dan ein Rheolau Sefydlog, caiff aelodau'r cyhoedd gyfle i ofyn cwestiynau, gwneud datganiadau neu gyflwyno ceisiadau ffurfiol i'r Awdurdod yn ein cyfarfodydd. Gall ymgeiswyr, asiantiaid, cefnogwyr a/neu wrthwynebwyr siarad am geisiadau cynllunio, materion gorfodi'n ymwneud â chynllunio, Gorchmynion Cadw Coed a gorchmynion addasu neu orchmynion llwybrau cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Ceir manylion am hynny yn adran 4 y polisi hwn.

3.3 Mae'r rheolau canlynol yn berthnasol i 'Siarad yn Gyhoeddus'.

| | |
|---|---|
| 1 | Bydd pob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd yn cynnwys '**Siarad yn Gyhoeddus**'. |
| 2 | Cewch ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud datganiad am unrhyw fater sydd o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor neu'r is-bwyllgor yr ydych am ei annerch. Nid oes yn rhaid eu bod yn ymwneud â'r eitemau sydd ar agenda'r cyfarfod penodol hwnnw. |
| 3 | Rhaid i chi roi gwybod i'r Awdurdod drwy publicspeaking@beacons-npa.gov.uk am unrhyw gwestiwn, cais a/neu ddatganiad yr hoffech ei gyflwyno, drwy lenwi'r ffurflen Cais i Siarad dan y Cynllun Siarad yn Gyhoeddus sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod: Cais i siarad dan y Cynllun Siarad yn Gyhoeddus \| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (bannaubrycheiniog.org). Rhaid i chi roi manylion y cyfarfod, nodi'r pwnc, a nodi'r cwestiwn neu roi manylion am eiriad y cais neu'r datganiad. Rhaid i chi roi eich manylion cyswllt a dychwelyd y ffurflen erbyn 10:00am dri diwrnod gwaith cyn cyfarfod y pwyllgor. |
| 4 | Ar ddechrau'r cyfarfod, byddwch yn cael eich gwahodd i ofyn y cwestiwn a/neu gyflwyno'r datganiad neu'r cais. Cewch annerch y cyfarfod am hyd at dair munud, neu fwy na hynny fel y caiff y Cadeirydd ganiatáu yn unol â'i ddisgresiwn/disgresiwn absoliwt. |
| 5 | Ni fydd unrhyw drafodaeth am gwestiwn, datganiad neu gais. Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn gofyn am eglurhad gennych ynglŷn ag unrhyw faterion a godwyd, ac mae'n bosibl y bydd yn cyflwyno ateb parod ar ein rhan ni neu'n cyfeirio'r mater i'w gynnwys ar agenda ein cyfarfod priodol nesaf ac yn gofyn i swyddog baratoi adroddiad sy'n ymdrin â'r materion a godwyd. |

6 Ni fydd unrhyw gwestiwn, datganiad neu gais sy'n ddifenwol ym marn ein Swyddog Monitro neu sy'n ymwneud ag aelod penodol o staff neu aelod penodol o'r Awdurdod yn cael ei ystyried yn y cyfarfod, a bydd ein Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig pam na ellir ystyried y mater yn y cyfarfod. Bydd ein Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i chi am y prosesau priodol ar gyfer cwyno am y staff ac am aelodau.

7 Ni ellir derbyn unrhyw gwestiynau, ceisiadau neu ddatganiadau:

7.1 os ydynt yn ymwneud â materion yr ymdrinnir â nhw fel rheol mewn sesiwn 'breifat' oherwydd eu bod yn ymwneud â gwybodaeth esempt neu gyfrinachol, er enghraifft camau cyfreithiol, materion ariannol a materion busnes yr Awdurdod neu sefydliadau eraill, aelodau unigol o staff neu drafodaethau undebau llafur.

7.2 os oes gweithdrefn statudol ar waith ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd, er enghraifft ynghylch materion yn ymwneud â rheoli datblygu a materion yn ymwneud â hawliau tramwy.

## 4.0 SIARAD YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

### CYD-DESTUN

4.1 Caiff y rhan fwyaf o benderfyniadau am gynllunio a hawliau tramwy eu gwneud dan bwerau dirprwyedig, a bydd ein Pwyllgor Cynllunio yn gwneud penderfyniadau ynghylch nifer fach o geisiadau mwy arwyddocaol a/neu ddadleuol. Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio fydd yn penderfynu ynghylch y gwahoddiad i siarad a'r modd y caiff y cyfarfod ei gynnal. Mewn achosion o'r fath, caniateir i bobl siarad yn unol â'r arweiniad hwn.

4.2 Nid oes gan bobl unrhyw hawl statudol i siarad yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Cynllunio ond rydym am sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fynegi eu barn cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud. Mae gan bawb hawl i gyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig cyn y cyfarfod, ond gallwch ofyn am gael cyflwyno eich barn ar lafar i'r Aelodau. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y sawl sy'n ffafrio peidio â chyflwyno eu barn yn bersonol, neu sy'n methu â gwneud hynny, dan unrhyw anfantais. Adroddir ynghylch unrhyw sylwadau yn adroddiadau'r Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio, a bydd y pwyllgor yn cael gwybod am unrhyw sylwadau a ddaeth i law ar ôl i'r adroddiad gael ei ysgrifennu.

4.3 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y drefn siarad yn gyhoeddus yn drefn deg a diduedd. Mae angen i'r drefn siarad yn gyhoeddus gael ei gweithredu'n effeithiol a rhaid iddi ganolbwyntio ar rinweddau'r achos o ran cynllunio. Os hoffech gael cyngor ynghylch beth yw rhinweddau achos penodol o ran cynllunio, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Cynllunio sy'n ymdrin â'r achos.

### EGWYDDORION Y CYNLLUN

4.4 Mae'r cyfle i siarad yn gyhoeddus yn bodoli yng nghyswllt unrhyw gais am ganiatâd cynllunio, materion gorfodi'n ymwneud â chynllunio, gorchmynion addasu neu orchmynion llwybrau cyhoeddus, neu achosion o gadarnhau Gorchmynion Cadw Coed, y mae angen i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu yn eu cylch ac sydd ar agenda'r cyfarfod.

4.5 Bydd gan aelodau'r cyhoedd (ac Aelodau sydd wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn mater penodol) sy'n dymuno siarad yn y cyfarfod gyfle i wneud hynny gan lynu'n dynn wrth yr arweiniad hwn.

4.6 Os yw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn eitem y mae angen penderfynu yn ei chylch, yna dan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau caniateir iddo siarad fel pe bai'n aelod o'r cyhoedd, yn unol â darpariaethau'r Cynllun Siarad yn Gyhoeddus. Fodd bynnag, yr Aelod fydd y siaradwr cyntaf, a bydd wedyn yn gadael cyfarfod y Pwyllgor tra bydd yr eitem yn cael ei thrafod.

**CYN Y CYFARFOD**

4.7 Caiff manylion agenda'r Pwyllgor Cynllunio eu rhoi ar ein gwefan. Caiff ymgeiswyr, asiantiaid a gwrthwynebwyr eu cynghori i ddilyn hanes y cais drwy wefan yr Awdurdod a chadw mewn cysylltiad â'r Swyddog Achos ynghylch hynt y cais. Cyfrifoldeb y sawl sydd am siarad yw gwirio a fydd y Pwyllgor Cynllunio yn ystyried y cais, drwy gysylltu â'r Swyddog Cynllunio neu Hawliau Tramwy sy'n ymdrin â'r achos. Bydd y swyddog hwnnw'n gallu rhoi manylion am y dyddiad tebygol y bydd y cais yn cael ei drafod.

4.8 Bum diwrnod clir cyn y cyfarfod, bydd yr agenda'n cael ei chyhoeddi'n electronig a bydd modd ei gweld drwy wefan gyhoeddus yr Awdurdod www.bannaubrycheiniog.org. Bydd yr agenda yn cynnwys yr holl adroddiadau gan swyddogion a'r holl argymhellion i'r pwyllgor. Ni fyddwch yn cael gwybod yn ysgrifenedig pan fydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y pwyllgor. Os oes gennych ddiddordeb mewn cais, dylech ddilyn ei hynt drwy ein gwefan (Ceisiadau ar-lein).

4.9 Mae tair munud ar gael i bobl siarad yn erbyn mater (fel gwrthwynebwyr): mae'r bobl hynny'n cynnwys unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau sydd â phryderon neu sy'n gwrthwynebu'r cais cyfan neu ran ohono. Mae tair munud ar gael i bobl siarad o blaid mater (fel cefnogwyr): mae'r bobl hynny'n cynnwys yr ymgeisydd; ei asiant, ei gynghorydd neu'i gynrychiolydd; ac unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau sydd o blaid y cais.

4.10 Rhaid i unrhyw un sydd am siarad yn y cyfarfod gydymffurfio â'r broses berthnasol sydd i'w gweld ar ein gwefan. Dylai ceisiadau i siarad dan y Cynllun Siarad yn Gyhoeddus gael eu gwneud drwy gyflwyno'r ffurflen sydd ar gael ar ein gwefan:https://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/cais-i-siarad-dan-y-cynllun-siarad-yn-gyhoeddus/. Dylai ceisiadau ddod i law fan bellaf erbyn 10am ar y dydd Iau cyn y cyfarfod (os caiff cyfarfod o'r pwyllgor ei gynnal ar ddydd Mawrth).

4.11 Os byddwch yn cofrestru i siarad, byddwn hefyd yn gofyn i chi gyflwyno trawsgrifiad ysgrifenedig o'ch datganiad ar gyfer siarad yn gyhoeddus, a fydd yn cynnwys tua 500 gair. Mae'r cyfrif geiriau hwn yn cyfateb i oddeutu tair munud. Yr unig bryd y bydd y datganiad yn cael ei ddefnyddio yw os bydd eich cysylltiad â'r we er mwyn siarad yn y cyfarfod yn pallu. Os na allwch siarad yn y cyfarfod oherwydd amgylchiadau annisgwyl, gallwch gysylltu â'r Awdurdod a gofyn am i swyddog ddarllen y trawsgrifiad yn uchel ar eich rhan.

4.12 Mae rhagor o fanylion am y rheolau gweithdrefnol ynghylch siarad yn gyhoeddus i'w gweld yn Rheol Sefydlog 30 yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod.

4.13 Dylai pob cais i siarad nodi'n glir y cais cynllunio dan sylw ac enw'r person sydd am siarad. Dylid cynnwys crynodeb hefyd o'r pwyntiau a godir. Dylai'r pwyntiau fod yn seiliedig ar faterion a godwyd yn y sylwadau gwreiddiol a dylent fod yn berthnasol i faterion cynllunio. Mae'r materion hynny'n cynnwys y canlynol ymhlith eraill:
• Polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol
• Golwg a chymeriad y datblygiad, ei gynllun a'i ddwysedd
• Y traffig a gynhyrchir, diogelwch ar y priffyrdd, a materion yn ymwneud â pharcio/gwasanaethau
• Unrhyw achos o fwrw cysgod dros eiddo arall neu o edrych dros eiddo arall, unrhyw aflonyddwch oherwydd sŵn, unrhyw arogleuon neu unrhyw achos arall o golli amwynder.
Dylai siaradwyr osgoi cyfeirio at faterion sydd y tu allan i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio, megis:
• Anghydfodau ynghylch ffiniau; cyfamodau; a hawliau eraill yn ymwneud ag eiddo
• Sylwadau personol (e.e. ynghylch cymhellion, camau gweithredu hyd yma, ymddygiad yr Awdurdod)
• Yr hawl i gael golygfeydd neu'r perygl y bydd gwerth eiddo'n gostwng.

4.14 Bydd siaradwyr sydd wedi cofrestru yn cael dolen gyswllt i ymuno â'r cyfarfod a gynhelir o bell. Fel rheol, caiff y ddolen gyswllt ei hanfon y diwrnod cyn y cyfarfod. Os bydd cyfarfod rhithiol yn cael ei gynnal, bydd y gallu i gymryd rhan yn y cyfarfod (yn hytrach na'i wylio ar-lein) yn dibynnu ar fynediad i gyfrifiadur sydd â chamera a seinyddion a meddalwedd sy'n gallu ymwneud â systemau'r Awdurdod. Ni all yr Awdurdod fod yn gyfrifol am ddarparu offer a meddalwedd o'r fath, a chyfrifoldeb y cyfranogwyr fydd sicrhau bod eu hoffer yn bodloni'r gofynion priodol. (Rydym yn argymell defnyddio porwyr Google Chrome neu Microsoft Edge.) Dylech sicrhau bod y camera a'r meicroffon ar eich dyfais wedi'u troi ymlaen.

4.15 Cofiwch fod yna ddeddfau sy'n atal difenwi. Os byddwch yn dweud rhywbeth anwir am berson yn gyhoeddus, gallai camau cyfreithiol gael eu cymryd yn eich erbyn. Pan fyddwch yn annerch y pwyllgor, dylai eich sylwadau lynu wrth y ffeithiau ac wrth unrhyw farn a allai fod gennych am y ffeithiau hynny. Os bydd y Cadeirydd neu Glerc y Pwyllgor (ar gais y Cadeirydd) yn y cyfarfod yn ystyried bod yn rhaid tynnu siaradwr allan o'r cyfarfod er mwyn gwella'r modd y caiff y cyfarfod ei gynnal, bydd camau'n cael eu cymryd yn syth i sicrhau bod hynny'n digwydd.

4.16 Os oes parti sydd â buddiant wedi dewis cyflwyno gohebiaeth hwyr a hepgor y cyfle i siarad mewn cyfarfod, yn unol â'r protocol, bydd copïau o'r sylwadau hynny a gyflwynwyd erbyn yr amser a'r dyddiad cau, sef 5pm ar y dydd Iau cyn y cyfarfod, yn cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Bydd yr ohebiaeth yn cael ei darllen yn uchel yn y cyfarfod gan y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Achos/Cynllunio.

**YN Y CYFARFOD**

4.17 Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn drefnus ac am oruchwylio'r modd y caiff y Protocol hwn ynghylch Siarad yn Gyhoeddus ei weithredu. Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'n Rheolau Sefydlog a'r arweiniad hwn.

4.18 Bydd achosion lle mae rhywun wedi cofrestru i siarad yn cael eu symud yn agos i frig yr agenda. Fodd bynnag, ni allwn ddweud wrthych yn union pryd y bydd unrhyw gais yn cael ei drafod. Ni fyddwn yn gohirio trafod cais oherwydd nad ydych chi'n barod i siarad pan fydd y mater yn cael ei gyhoeddi gan y Cadeirydd.

4.19 Dyma'r weithdrefn ar gyfer siarad yn gyhoeddus yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio (yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd):
- Mae'r Cadeirydd yn cyhoeddi'r cais cynllunio
- Mae'r Swyddog Cynllunio yn disgrifio'r cais a'r materion sydd i'w hystyried, mae'n rhoi argymhelliad gan ddangos lluniau o'r safle, cynlluniau ac ati fel y bo'n briodol, ac mae'n rhoi'r manylion diweddaraf i'r Aelodau am unrhyw wybodaeth (gan gynnwys sylwadau hwyr) sydd wedi dod i'r amlwg ers i'r adroddiad gael ei baratoi. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau i'r Swyddog Cynllunio.
- Fel rheol, gwrandewir ar y sylwadau yn y drefn ganlynol:
  - Yr aelod lleol o'r Cyngor Sir
  - Cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned/Tref
  - Ymgyngoreion statudol
  - Cefnogwr
  - Gwrthwynebydd
  - Yr ymgeisydd neu asiant.
- Gall yr Aelodau, drwy'r Cadeirydd, ofyn am eglurhad ynghylch unrhyw bwyntiau a godwyd, ar ôl gwrando ar bob sylw, fel y bernir yn angenrheidiol.
- Mae'r Swyddog Cynllunio yn cyflwyno sylwadau terfynol ac argymhelliad.
- Ceir trafodaeth drwy'r Cadeirydd, ac mae'r Pwyllgor yn gwneud penderfyniad (bydd swyddogion yn ymateb i'r pwyntiau fel y bo angen).

4.20 Dim ond unwaith y caniateir i chi siarad wrth ystyried y cais cynllunio. Os bydd yr Aelodau yn penderfynu gohirio'r cais yn awr (fel rheol er mwyn ymweld â'r safle neu er mwyn cael rhagor o wybodaeth), byddwch yn cael dewis rhwng rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod yn awr neu ddychwelyd i gyfarfod a gynhelir yn nes ymlaen. Dylech nodi nad yw'r hawl i siarad yn berthnasol i ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio â safleoedd.

4.21 Bydd gwrthwynebwyr a'r sawl sy'n siarad o blaid y cais cynllunio, sydd wedi dilyn y weithdrefn hon, yn cael eu gwahodd i siarad am gyfanswm o dair munud gerbron y pwyllgor.
Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, tair munud yw cyfanswm yr amser i annerch y cyfarfod, a bydd yn cael ei rannu gan bobl sy'n siarad ar y cyd.

## 5.0 Cysylltu â'r Awdurdod

Caiff y manylion cyswllt eu diweddaru'n rheolaidd ac maent ar gael ar wefan yr Awdurdod, yn yr adran Cais i siarad dan y Cynllun Siarad yn Gyhoeddus.